**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KS/1968/17

06 Mehefin 2017

Annwyl Aelodau'r Cynulliad

Rwy'n ysgrifennu atoch i ateb cwestiwn a ofynnwyd yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog ddydd Mawrth 16 Mai ynghylch y broses o asesu cynigion ar gyfer gorsafoedd trenau newydd yng Nghymru.

Fel y dywedais yn fy llythyr at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Ebrill, mae methodoleg wedi'i datblygu i asesu cynigion ar gyfer gorsafoedd trenau newydd y gellir ei chymhwyso mewn ffordd gost-effeithiol a chymesur. Mae tri cham i'r fethodoleg asesu. Bydd hyn yn golygu mai dim ond ar gyfer y cynigion y mae'r gofyn mwyaf amdanynt y caiff y gwaith mwyaf costus o lunio amcangyfrifon manwl o gostau gorsaf newydd, a modelu amserlenni, ei wneud.

Mae'r cam cyntaf yn y rhaglen waith hon wedi'i wneud. Y gorsafoedd rhanbarthol a gafodd eu dewis ar gyfer eu hasesu yw'r rheini gafodd y sgoriau uchaf ar draws yr holl feini prawf.

Rwyf wedi amgáu copi o 'Stage 1 Assessment Report on New Rail Stations Prioritisation' sy'n cynnwys y meini prawf ar gyfer asesu'r ddadl drafnidiaeth (yn Atodiad A).

Bydd ail gam yr asesiad hwn yn edrych yn fanylach ar gryfder yr achos ariannol ac economaidd o blaid gorsaf drên newydd, gan gynnwys cyngor gan Network Rail ar ei hymarferoldeb. Mae hon yn broses barhaus ac ailadroddol ac unwaith y caiff y rhestr flaenoriaeth ei hasesu, bydd cyfle wedyn i ystyried y grŵp nesaf o orsafoedd rhanbarthol.

Er gwaethaf apêl Llywodraeth Cymru am ddatganoli'r cyfrifoldeb am gyllido seilwaith y rheilffyrdd, Llywodraeth y DU sy'n dal i fod yn gyfrifol amdano. Trwy wneud y gwaith hwn, rydym yn cryfhau gallu cynigion ar gyfer gorsafoedd i elwa ar alwad am geisiadau am gyllid. Byddaf yn cadw bys yr Aelodau ar byls unrhyw ddatblygiadau pellach.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Blaenoriaethu Gorsafoedd Trenau Newydd – Adroddiad Asesu Cam 1**

## Y pwnc

1. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r broses o nodi cynlluniau ar gyfer gorsafoedd trenau newydd, a'r broses asesu a blaenoriaethu arfaethedig.

## Y cefndir

2. Er gwaethaf apêl Llywodraeth Cymru am ddatganoli'r cyfrifoldeb am gyllido seilwaith y rheilffyrdd, Llywodraeth y DU sy'n dal i fod yn gyfrifol amdano.

3. O bryd i'w gilydd, mae Llywodraeth y DU yn cynnig cyllid ar gyfer gorsafoedd newydd drwy alwadau penodol am geisiadau am gyllid. Mewn galwadau o'r fath, mae gan orsafoedd sydd eisoes wedi datblygu achos busnes fantais. Yn sgil hynny, rydym wedi datblygu methodoleg i gyflymu'r gwaith datblygu angenrheidiol ac i ddatblygu rhestr o brosiectau. Felly, pan fydd Llywodraeth y DU yn cynnig cyllid, bydd gan Gymru brosiectau ar gam datblygu priodol y gellir eu cyflwyno i'w hystyried, a byddai ganddynt well obaith o fod yn llwyddiannus.

4. Dylid nodi mai dim ond cynigion sydd ag achos busnes cadarn sy'n debygol o gael cyllid. Drwy wneud y gwaith hwn, rydym yn cryfhau gallu cynigion ar gyfer gorsafoedd i elwa ar alwad am geisiadau am gyllid.

## Nodi gorsafoedd

5. Mae cynigion ar gyfer gorsafoedd newydd wedi dod i law oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau. Yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus, cyhoeddwyd rhestr o leoliadau posibl yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015, ynghyd ag ymrwymiad i ddatblygu meini prawf asesu (Cyfeirnod RI10 yn y Cynllun), a thrwy ddefnyddio'r meini prawf hynny, ddatblygu rhestr yn ôl trefn blaenoriaeth.

6. Yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol, nodir:

*RI10 – Datblygu meini prawf asesu a chan ddefnyddio’r meini prawf hynny, rhestr wedi’i blaenoriaethu o orsafoedd newydd i’w hystyried ymhellach (mewn perthynas â sicrhau cyllid gan y diwydiant rheilffyrdd). Bydd y gorsafoedd canlynol yn cael eu hasesu fel rhan o’r broses hon:*

- *Y De-ddwyrain: Parc y Rhath/Heol Wedal, Heol Crwys, Gabalfa, Melin Trelái/Parc Fictoria, Caerllion, Llan-wern, Gorllewin Casnewydd (ar Reilffordd Ebwy), Crymlyn, Llaneirwg, Heol Casnewydd/Rover Way, Bracla, Sain Ffagan, Magwyr.*
- *Y De-orllewin: Tredemel, Sanclêr, y Cocyd, Glandŵr.*
- *Y Canolbarth: Bow Street, Carno, Howey, Aber-miwl.*

- *Y Gogledd: Brychdyn, Gogledd Wrecsam, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd (fel dewis arall yn lle Gorsaf newydd Pont Penarlâg), De Wrecsam, Llangefni.*

7. Mae'r cynigion ar gyfer gorsafoedd newydd wedi'u nodi mewn sawl adroddiad ac astudiaeth, gan gynnwys cynigion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Strategaeth Rheilffordd Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru (SWWITCH) (Tachwedd 2013) ac adroddiad Tasglu Trafnidiaeth Integredig Gogledd-ddwyrain Cymru (Mehefin 2013). Mae rhagor o leoliadau hefyd wedi'u nodi drwy ohebiaeth rhwng y rheini sydd â diddordeb a'r Llywodraeth, a thrwy waith ar Fetro De-orllewin Cymru. Fe'u hychwanegwyd at y rhestr o orsafoedd a nodir yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol sy'n golygu bod 46 o orsafoedd i'w hystyried:

- Y De-ddwyrain: Abertyleri, Bracla, Coleg Pen-y-bont, Maes Awyr Caerdydd, Caerllion, Coedcernyw, Crymlyn, Heol Crwys, Gogledd Cwm-bach, Melin Trelái/Parc Fictoria, Gabalfa, Glyncoch, Pont Stryd Herbert, Hirwaun, Llan-wern, Sgwâr Loudoun, Magwyr, y Maendy, Mamheilad, Meisgyn, Cyffordd 34 yr M4, Nantgarw, Heol Casnewydd/Rover Way, Gorllewin Casnewydd, Parc y Rhath/Heol Wedal, Parc y Sarn, Sebastopol, y Sblot, Sain Tathan, Sain Ffagan, Llaneirwg, Glan-bad, rheilffordd newydd drwy Lantrisant, Tonysguboriau, Beddau.

- Y De-orllewin: y Cocyd, Glandŵr, Sanclêr, Tredemel.

- Y Canolbarth: Bow Street, Carno, Howey, Aber-miwl

- Y Gogledd: Brychdyn, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd, Gogledd Wrecsam, De Wrecsam, Llangefni.

**Methodoleg**

8. Datblygwyd methodoleg i asesu cynigion ar gyfer gorsafoedd trenau newydd yn gynnar yn y broses er mwyn nodi pa orsafoedd y dylid eu blaenoriaethu yn y lle cyntaf ar gyfer gwaith pellach.

9. Mae tri cham i'r fethodoleg asesu. Mae hyn yn golygu y caiff y gwaith mwyaf costus o lunio amcangyfrifon manwl o gostau gorsafoedd newydd a modelu amserlenni ei wneud mewn ffordd benodol. Nodir y meini prawf yn Atodiad 1.

10. Mae asesiad Cam 1 yn cynnwys sifft gychwynnol o'r gorsafoedd a nodwyd gan ddefnyddio’r meini prawf yn yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a chan ystyried nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

11. Bydd y gorsafoedd sy'n cael blaenoriaeth ar ôl asesiad Cam 1 yn symud ymlaen at Gam 2. Bydd hyn yn cynnwys cymhwyso model asesu safonol i asesu'r galw a ragwelir, asesiad cychwynnol o gryfder yr achos ariannol ac economaidd o blaid gorsaf newydd, a chyngor gan Network Rail ar ei hymarferoldeb. Defnyddir adnoddau mewnol yn ystod y cam hwn, ac mae'n bosibl y bydd angen ychydig o gymorth technegol.

12. Bydd y gorsafoedd sy'n cael blaenoriaeth ar ôl asesiad Cam 2 yn symud ymlaen at Gam 3. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ac asesu'r prif flaenoriaethau, gan gynnwys Adroddiad Cam 1 a gaiff ei baratoi yn unol â’r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, achos busnes a phroses Network Rail ar gyfer Llywodraethu Prosiectau Buddsoddi yn y Rheilffyrdd (GRIP).

**Asesiad Cam 1**

13. Defnyddiwyd meini prawf 'achos trafnidiaeth' (Atodiad 1) wrth gyflawni asesiad Cam 1. Dewiswyd y gorsafoedd a fydd yn symud ymlaen at y Cam nesaf ar sail ranbarthol. Y gorsafoedd rhanbarthol y cafodd eu dewis i'w hasesu ymhellach oedd y rheini a gafodd y sgoriau uchaf ar draws yr holl feini prawf o dan 'achos trafnidiaeth'.

14. Yn seiliedig ar y sifft gychwynnol hon, cynigir y bydd y gorsafoedd a ganlyn yn cael eu hasesu ymhellach.

- Y De-ddwyrain: Melin Treléi/Parc Fictoria, Llan-wern, Heol Casnewydd/Rover Way a Llaneirwg.
- Y De-orllewin: y Cocyd, Glandŵr, Sanclêr.
- Y Gogledd: Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd, Gogledd Wrecsam, De Wrecsam, Llangefni.
- Y Canolbarth: Bow Street.

**Y Camau Nesaf – Asesiad Cam 2**

15. Bydd y gorsafoedd sy'n cael blaenoriaeth yn sgil asesiad Cam 1 yn symud ymlaen at Gam 2. Byddant wedyn yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod Cam 3. Rhagwelir y bydd Cam 2 yn para rhyw 6 mis. Unwaith y caiff y rhestr flaenoriaeth ei hasesu, bydd cyfle wedyn i ystyried y grŵp nesaf o orsafoedd rhanbarthol, os yw hynny'n berthnasol.

## Atodiad 1 – Meini Prawf Asesu

| ACHOS STRATEGOL - yr achos o blaid newid a sut y mae'n cyd-fynd â pholisïau eraill | | ACHOS TRAFNIDIAETH - effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y newid | Meini prawf |
|---|---|---|---|
| | Cymru lewyrchus | | Mynediad i brif borthladdoedd, meysydd awyr a therfynfeydd rheilffyrdd |
| | | | Cysylltu prif ganolfannau poblogaeth a gweithgarwch economaidd |
| | | | Cysylltu ardaloedd o anweithgarwch economaidd difrifol â safleoedd cyflogaeth |
| | | | Y Gymhareb Buddion i Gostau |
| | Cymru gydnerth | | Niferoedd y Teithwyr a Ragwelir |
| | Cymru iachach | | Gwell mynediad i wasanaethau |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | | Lleihau cost gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus |
| | | | Gwella mynediad mewn ardaloedd lle nad oes modd teithio ar fws |
| | | | Gwella mynediad mewn ardaloedd sydd â mynediad gwael i wasanaethau |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | | Sicrhau cysylltedd o'r dechrau i'r diwedd |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | | Gwell mynediad i safleoedd twristaidd ac atyniadau diwylliannol |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | | Gwella Ansawdd Aer |

| | | | Lleihau Sŵn |
|---|---|---|---|

| | Meini prawf |
|---|---|
| ACHOS ARIANNOL – ydy'r gwariant a gynigir yn fforddiadwy? | Cost y Cynllun |
| | Arian Cyfatebol |
| ACHOS CYFLENWI – A ellir cyflawni'r cynllun? | Perchnogaeth Tir |
| | Ardal amgylcheddol sensitif |
| | Geometreg/topograffi ffisegol |
| | Cymhlethdod y dyluniad/gwaith adeiladu |
| | Cymorth Network Rail/gweithredwyr trenau |
| | Y Cam Cyflenwi |

Ystyried cyfyngiadau ee **Amgylcheddol (SoDdGA, ACA), Ffisegol (Geometreg y cynllun), Technegol (gweler cymhlethdod – cymeradwyaethau sy'n ofynnol, arbenigeddau)**